*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 55(4)(d) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2015 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r uchafswm y bydd sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd mewn grym yn gallu ei godi drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd llawnamser.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r uchafswm a fydd yn gymwys. Mae rheoliadau 4, 5 a 6 yn rhagnodi uchafsymiau is mewn cysylltiad â rhai cyrsiau.

Mae rheoliad 7 yn darparu, pan fo cwrs yn gwrs breiniol, fod ffioedd i'w trin fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad y darperir y cwrs ar ei ran, a bod rhaid i gyfanswm y ffioedd y mae myfyriwr yn eu talu beidio â bod yn fwy na'r swm a ragnodir gan y Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 55(4)(d) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2015 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 5(3), 5(9) a 55(2) a (4)(d) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**1**).

Yn unol ag adran 55(4)(d) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar xxxx.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "cwrs rhyngosod" ("*sandwich course*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015(**2**);

---

(**1**) 2015 dccc xx.
(**2**) O.S. 2015/54 (Cy. 5).

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 55(4)(d) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015;

ystyr "sefydliad tramor" ("*overseas institution*") yw sefydliad heblaw un yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

**Yr uchafswm rhagnodedig**

**3.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 4, 5 a 6, yr uchafswm rhagnodedig at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015 yw £9,000.

**Yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer blynyddoedd academaidd terfynol cyrsiau a blynyddoedd academaidd cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon**

**4.** At ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015, rhagnodir mai'r uchafswm yw £4,500 mewn cysylltiad â:

(a) blwyddyn academaidd derfynol cwrs pan fo'n ofynnol i'r flwyddyn academaidd honno fel rheol gael ei chwblhau ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb;

(b) cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon(**1**) (gan gynnwys cwrs o'r fath sy'n arwain at radd gyntaf), blwyddyn academaidd pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos.

**Yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer cyrsiau rhyngosod**

**5.** At ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015, rhagnodir mai'r uchafswm yw £1,800 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs rhyngosod:

(a) pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos; neu

(b) os yw cyfanswm unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, yn fwy na 30 wythnos.

(**1**) 'Hyfforddiant cychwynnol athrawon' yw hyfforddiant neu addysg â'r nod o wneud personau, nad ydynt yn athrawon, yn addas i fod yn athrawon.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 55(4)(d) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

**Yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer astudio a lleoliadau gwaith dramor**

**6.** At ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015, rhagnodir mai'r uchafswm yw £1,350 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor:

(a) pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn llai na 10 wythnos; neu

(b) os yw cyfanswm unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, yn fwy na 30 wythnos.

**Ffioedd sy'n daladwy i bersonau eraill**

**7.** At ddibenion adran 5(9) o Ddeddf 2015, mae ffioedd i'w trin fel pe baent yn cael eu talu i sefydliad rheoleiddiedig o dan adran 5(2)(a) o Ddeddf 2015 yn yr amgylchiadau a ganlyn, sef pan fo'r ffioedd yn daladwy i berson mewn cysylltiad â chwrs cymhwysol a ddarperir ar ran sefydliad rheoleiddiedig gan y person hwnnw.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad